SFL47

Rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi. Mae'n cynnwys sicrhau bod yr holl weithdrefnau cyn taith wedi cael eu cwblhau a bod gyrrwr priodol wedi cael ei ddynodi.

Mae'r safon hon yn berthnasol i bawb sydd yn gysylltiedig â rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi o fewn gweithrediadau logisteg, er enghraifft, yn gweithio ym maes warws a storio, trafnidiaeth, neu anfon llwythi ymlaen.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cael a chadarnhau manylion y llwythi fydd yn cael eu casglu neu eu dosbarthu
2. cadarnhau'r wybodaeth gyfeirio a threfnu ar gyfer cludo llwythi
3. dewis a dynodi'r gyrrwr, y cerbyd a'r offer ar gyfer cludo llwythi
4. cadw cofnodion y gyrrwr, y cerbyd a'r offer a neilltuwyd ar gyfer cludo llwythi
5. cyfathrebu a chytuno gyda chydweithwyr ynghylch unrhyw gamau a gymerir i ddatrys problemau yn ymwneud â neilltuo adnoddau a'u cofnodi lle y bo'n briodol
6. awdurdodi'r defnydd o'r adnoddau a chwblhau unrhyw wybodaeth neu **ddogfennau** angenrheidiol i ryddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi
7. cyhoeddi **dogfennau** perthnasol mewn perthynas â manylion cyflenwi a dosbarthu
8. dilyn gweithdrefnau'r sefydliad a'r holl **ofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** perthnasol yn ymwneud â rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi
9. cydymffurfio â gofynion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol sefydliadol perthnasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y math o lwyth a nodweddion y cyflenwad fydd yn cael ei symud
2. y dulliau gwahanol o gludiant a cherbydau a ddefnyddir gan y sefydliad i gludo llwythi
3. y mathau o gerbydau ac offer a ddefnyddir i gario llwythi gwahanol a'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer eu rhyddhau
4. y sgiliau, y cymwysterau a'r trwyddedau perthnasol sy'n ofynnol gan yrwyr yn y sefydliad
5. y **ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r codau ymarfer** perthnasol mewn perthynas â dyrannu adnoddau
6. y llwybr, y gyrchfan, amserlenni casglu a dosbarthu ar gyfer cludo llwythi
7. systemau a gweithdrefnau cofnodi'r sefydliad mewn perthynas â rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi
8. y materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol perthnasol
9. y dulliau **cyfathrebu** i'w defnyddio gyda **chydweithwyr** a **chwsmeriaid**
10. y **gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu** perthnasol yn ymwneud â rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi

Geirfa

Cwsmeriaid: mewnol ac allanol

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyfathrebu: llafar, ysgrifenedig, electronig

Deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer: oriau gyrrwr a rheoliadau trwydded, gofynion CPC gyrrwr, gofynion trwyddedu gweithredwyr cerbydau, gweithdrefnau gweithredu amgylcheddol, gofynion llwyth peryglus, ADR

Dogfennau: rhestrau, nodiadau dosbarthu, gwybodaeth am nwyddau peryglus

Gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau amser gwaith, rheoliadau trafnidiaeth

Rhyddhau cerbydau ar gyfer cludo llwythi

Datblygwyd gan	Skills for Logistics
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2018
Indicative Review Date	Chwefror 2023
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Logistics
RCU gwreiddiol	SFL47
Galwedigaethau perthnasol	Gweithredu a chynnal a chadw trafnidiaeth; Warws a Dosbarthu; Rheolwyr Dosbarthu; Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol Trafnidiaeth
Cyfres/Set	Swyddfa Draffig
Geiriau Allweddol	trafnidiaeth; symudiad; cyfeirio; trefnu; cerbydau; nwyddau